Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE/715/22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

14 Mehefin 2022

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi byddaf yn cynnal cyfarfod nesaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ar 15 Mehefin yng Nghaerdydd.

Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar ymatebion y Llywodraeth i'r argyfwng costau byw. Mae'r agenda hefyd yn cynnwys eitem ar Sero Net a fydd yn ystyried ffyrdd blaengar o fuddsoddi yn y trawsnewidiad sero net o'r system ynni sy'n sicrhau gostyngiad parhaus mewn prisiau, yn enwedig ar gyfer cartrefi incwm is ac yn cefnogi ein diogelwch ynni.

Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ym mis Mawrth cytunwyd i swyddogion gydweithio i ystyried a fyddai'n bosibl cryfhau prosesau i ddarparu mwy o sicrwydd cyllid ar ddiwedd blwyddyn wedi'i gefnogi gan hyblygrwydd cyllidebol priodol. Mae'r agenda yn cynnwys eitem ar gyfer diweddariad ar y cynnydd.

Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan ddiweddariad y Llywodraethau Datganoledig ar faterion o ddiddordeb a rennir, pan fyddaf yn darparu gwybodaeth ar y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

Bydd cyfle hefyd i ailadrodd ein pryderon ynghylch agwedd Llywodraeth y DU at gyllid i ddisodli cyllid yr UE ac effaith COVID-19 a phwysau chwyddiant ar y gwasanaeth iechyd.

Byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r cyfarfod.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.